# Cylchlythyr Wythnosol Ysgol Pencae *Weekly Newsletter*

4.10.24

Annwyl Riant / Gwarcheidwaid,
*Dear Parent / Guardian,*

Mwynheuon ni wythnos arall gwych yng nghwmni eich plant. Mae'r Derbyn wedi bod yn gwneud amlinelliad o'u cyrff gyda brigau a dail o ardal BenCoed (y goedwig!), blwyddyn 1 wedi bod yn brysur yn paratoi eu pentref 3D o focsys tra bod blwyddyn 2 wedi bod yn dysgu am Laura Ashley ac arbrofi gyda'i phatrymau. Gwersi Saesneg oedd cyffro blwyddyn 3 yr wythnos hon yn sillafu geiriau sy'n odli, mae blwyddyn 4 wedi bod yn brysur yn codio ar raglen Scratch, her beirianneg oedd o flaen blwyddyn 5 wrth iddyn nhw greu melinau gwynt o sbwriel yn dilyn gwylio'r ffilm, The Boy who harnessed the wind ac mae blwyddyn 6 wedi bod yn gosod llinell amser hinsawdd a oedd mor hir roedd angen holl lawr y neuadd! Pleser oedd eu harsylwi i gyd wrth eu boddau ym mwrlwm dysgu!

*We've had another excellent week in your children's company. The Reception class have been busy creating an outline of their bodies with leaves and sticks that they collected from PenCoed (our forest), year 1 have been busy creating their 3D village out of boxes whilst year 2 have been learning about and exploring with Laura Ashley's patterns. English lessons have been the highlight of year 3's week with the children spelling words that rhyme, year 4 have been busy coding on the program, Scratch, year 5 had an engineering project where they had to create windmills out of rubbish following watching They Boy Who Harnessed The Wind and year 6 created a climate timeline (which was so long they needed to use the hall floor!) It's been a pleasure to observe your children's enjoyment while learning!*

| ***Pethau i'w cofio wythnos nesaf:***<br>***Things to remember next week:*** |
| --- |
| **Dydd Llun / Monday** 3.15 - 3.45: Dewch i edrych ar y stondin llyfrau / *Come and look at the books on sale* |

**Dydd Mawrth / Tuesday**: casgliad Diolchgarwch er budd Banc Bwyd Caerdydd. Danfonwch eich cyfraniad mewn gyda'ch plentyn */ Harvest Collection in aid of Cardiff Food Bank. Sen din your donation with your child.*

**Diwrnod Chwaraeon y Byd / World Sports Day**

Diolch o galon i Mr Todd a wnaeth gyflwyno hanes Parc Hayley a phwysigrwydd chwaraeon i'r parc i ddisgyblion blwyddyn 3, 4, 5 a 6. Roedd y disgyblion wrth eu boddau yn clywed hanes y cyrtiau tennis cyn mwynhau gêm ar y cwrt!

*Diolch to Mr Todd who told year 3, 4, 5 and 6 the history of Hayley Park and the importance sports has in the history. The pupils were mesmerised listening to the tennis courts' history before enjoying a tennis game on the courts.*

**Twrnamaint Pêl-droed Blwyddyn 5 a 6**
***Year 5 and 6 Football Tournament***

Aeth dau dîm bêl-droed i gynrychioli'r ysgol yn nhwrnamaint pêl-droed yr Urdd ddydd Mawrth. Chwaraeon nhw yn arbennig gan dderbyn canmoliaeth arbennig am eu gwaith tîm. Cyrhaeddodd un tîm y rownd go gyn derfynol gan golli yn yr eiliadau olaf. Da iawn i chi gyd!

*Two teams went to represent the school at the Urdd football tournament on Tuesday. They played excellently and received high praise for their teamwork. One of the teams reached the quarter-finals and lost in the very last seconds. Congratulations to them all.*

**Yn eisiau / Wanted**

Mae cyfle wedi codi i'r ysgol wneud bach o waith peintio yn y dosbarthiadau. Ys gwn i os oes arbenigwr dylunio (Interior Designer) yn ein cymuned a fyddai ar gael i gael sgwrs am ein gweledigaeth?! Hefyd a oes rhywun sydd â mynediad at ddeunyddiau peintio rhatach a fyddai yn gallu ein cynorthwyo gyda'r archeb? Cysylltwch a DIOLCH o flaen llaw.

*A chance has arisen to paint the classrooms. Do we have an interior designer in our community who would be willing to have a chat about our vision?! Also, does anyone have access to trade materials who can help us with our order of paint etc? Get in touch and DIOLCH beforehand.*

**Cymdeithas Rhieni ac Athrawon**
**PTA**

Cofiwch am y ffyrdd hynod hawdd yma i godi arian er budd yr ysgol / *Remember these easy ways of raising money for the school:*

| | |
|---|---|
| ***Asda Cash Pot*** | *Easy Fundraising* |

Wrth siopa, defnyddiwch yr Asda Reward App (yn y siop neu ar-lein. Bydd angen dewis Ysgol Pencae fel eich ysgol), ac am bob tro rydych yn siopa, bydd Asda yn rhoi 0.5% i'r ysgol. Yn ogystal â £1 am bob cwsmer sy'n dewis Ysgol Pencae a £50 yn gysylltiedig gyda'r cwsmer cyntaf sy'n defnyddio'r ymgyrch!

**Mae'r ymgyrch hwn tan 30.11.24.**

*As you shop use the Asda Reward App (in-store or online, you will need to choose Ysgol Pencae as your school) and for every shop that you make, Asda will pay 0.5% to the school. And that's not all. For every customer who chooses your school, Asda will put £1 into your school's Cashpot, and another £50 when your school's first opted-in customer spends in-store or online!*

***This scheme is running until 30.11.24.***

***RHANNWCH GYDA PHAWB / SHARE LOUD AND WIDE!***

Defnyddiwch y ddolen isod er mwyn cofrestru gyda CRhA Pencae, ac wedyn byddwch yn gallu siopa ar-lein a bydd y siopau yn cyfrannu at GRhA Pencae. Unwaith i chi gofrestru, yr unig beth fydd angen i chi wneud ydi mynd mewn i wefan Easy Fundraising, a chael eich cyfeirio o fanno at eich gwefan siopa. Mae'r gweddill yn cael ei wneud drostoch chi. Gyda'r Nadolig ar y gorwel, a siopa ar-lein am fod ar ei anterth, mae'n amser delfrydol.

*Use the link below to register with the PTA fundraising page. Then you can shop and the shops will donate towards the PTA. Once you've registered, click into Easy Fundraising and then go through this website to your shopping shop and the rest will be done for you. One extra click to your shopping!*

*With Christmas looming - it's a perfect time to help the PTA.*

https://www.easyfundraising.org.uk/support-a-good-cause/step-1/?char=12012&invite=6dyi8w&referral-campaign=s2s&utm_campaign=GPT-143&utm_source=easyfundraising-app&utm_medium=referral&utm_content=share-tray

**Stondin Lyfrau**

**Book Stall**

Mae cwmni Scholastic yn dod a'i Ffair Lyfrau i'r ysgol rhwng 30.9.23 a 11.10.23. Bydd cyfle i ddisgyblion blwyddyn 3 - 6 fynd i bori trwy'r llyfrau a gwneud rhestr siopa i ddod adref.

**Os hoffech chi fel rhieni / gwarchodwyr graffu ar y lluniau, byddwn yn agor y stondin wedi ysgol NOS LUN, 7fed o Hydref (3.15 - 3.45). Mae'r ysgol yn derbyn canran o'r holl werthiant er mwyn prynu llyfrau newydd, felly cyfle perffaith i brynu llyfrau fel anrhegion Nadolig!**

*Scholastic are bringing their book stall to school between the 30.9.24 and 11.10.24. Year 3 - 6 pupils will have the chance to go and browse the books and they will bring a wish list home.* ***If you as parents/guardians wish to look at the books, we will open the stall MONDAY EVENING, 7th of October (3.15 - 3.45). The school receives a percentage of the sales towards buying our own books, so if you buy books as Christmas gifts, come and have a look!***

**Clybiau / *Clubs***

| | ***Dydd Llun*** **Monday** | ***Dydd Mercher Wednesday*** | ***Dydd Iau*** **Thursday** | ***Dydd Gwener Friday*** |
|---|---|---|---|---|
| ***12.45 - 13.15*** | | | | ***Bl3-6***<br>Clwb Chwaraeon Urdd<br>Urdd Sports Club<br><br>archebu lle / book a place |
| ***15.30 - 16.30*** | ***Bl3-6***<br>Clwb Canu / *Singing Club*<br><br>***Bl5 - 6***<br>Clwb Pêl-rwyd<br>*Netball* | ***Bl3-6***<br>*Dancefit*<br><br>archebu lle / *book a place* | ***Bl4 - 6***<br>Clwb Pêl-droed / Rygbi<br>*Football / Rugby Club* | |

Mwynhewch y penwythnos / *Enjoy the weekend,*

Siwan Dafydd

| **Mis Hydref**<br>**Sialens Siarter Iaith y Teulu**<br>***Language Charter Family Target*** | **Mis Hydref**<br>**Proc i'r Cof Diogelwch ar y We**<br>***Internet Safety Tip*** | **Mis Hydref**<br>**Hawliau Plant**<br>***Children's Rights*** |
|---|---|---|
| Beth am ddweud Bore Da a Nos Da yn Gymraeg adref.<br><br>How about saying Bore Da (good morning) and Nos Da (Good night) in the house. | Dylech chi fod yn 13 mlwydd oed er mwyn defnyddio Whatsapp.<br><br>*You should be 13 years old to use WhatsApp.* | Eich hawl i enw a chenedligrwydd.<br><br>*Your right to a name and nationality.* |

| **Cysylltiadau Defnyddiol / Helpful Links:** |
|---|
| Ffurflen Meddyginiaeth / *Medicine Form* |

| |
|---|
| Ffurflen Gwyliau / *Holiday Form* |
| Clwb Carco |
| Gwaith cartref / Home Work    bit.ly/gwaithcartrefPC |

| DYDDIADUR YR YSGOL<br>SCHOOL DIARY<br>Dyma ddyddiadau a bydd mwy o fanylion yn nes at yr amser<br>Here are key dates and more information will be shared nearer the time | |
|---|---|
| **Dyddiad / Date** | **Digwyddiad / Event** |
| **1.10.24 - 11.10.24** | **Ffair Lyfrau Scholastic Book Fair**<br>Bydd disgyblion bl3-6 yn cael cyfle i bori trwy llyfrau Saesneg Scholastic |
| **8.10.24** | **Casgliad Y Cynhaeaf / *Harvest Collection*** |
| **8.10.24** | **Bl4 - 6:** Rownd 1af Cogurdd<br>Cogurdd, 1st Round |
| **11.10.24** | **Bl4 a 5:** Jambori'r Urdd<br>Urdd Jambori |
| **11.10.24** | **CRHA / PTA: Stondin Gwisg Ffansi Ail Law (iard)<br>Pre-loved Fancy Dress Stall (yard)** |
| **15.10.24** | **Casgliad dillad Rags to Riches** - helpwch yr ysgol i wneud arian trwy fydn trwy eich dillad a chael gwared o'r pethau dydych chi ddim bellach yn eu gwisgo. Dewch a nhw i'r ysgol ar y dyddiad yma a byddwn ni yn eu cyfrannu i gynllun Rags to Riches.<br>***Rags to Riches Collection*** *- help the school make money by having a clothes clear out, bring them to school on this date and we can donate them to Rags to Riches.* |
| **15.10.24** | Nosweithiau Rhieni ar-lein<br>Online Parents Evening |

| | |
|---|---|
| **16.10.24`** | Nosweithiau Rhieni wyneb yn wyneb<br>Face to face Parents Evening |
| **18.10.24** | Dangoswch y Cerdyn Coch i Hiliaeth - pawb i wisgo COCH<br>Show Rasicm the Red card - Everyone to wear RED |
| **21.10.24 - 25.10.24** | **Bl6:** Llangrannog |
| **22.10.24** | **PTA: Disgo Bw Bwgi BW Disco**<br>**4.30 - 5.30:** Reception, year 1 and 2<br>**5.45 - 7.00:** Bl3, 4 and 5 |
| **27.10.24** | **Bl4:** Cyngerdd PBuzz yn Coleg Brenhinol Cerdd a Drama, Caerdydd<br>PBuzz Concert in the Royal Welsh College of Music and Drama, Cardiff |
| **28.10.24 - 1.11.24** | Hanner Tymor / Half Term |
| **5.11.24** | **Stondin Gacennau Bl6 ar yr iard -** dewch â phres gyda chi os am gacen. Bydd yr elw yn mynd at barti diwedd cyfnod blwyddyn 6.<br>**YR6 Cake stall on the yard** - bring money if you want a cake. The profit will go towards year 6' end of an era party. |
| **14.11.24** | **CRhA / PTA: Sinema Pencae Cinema** |
| **18.11.24** | **Bl6:** Gwylio Sioe Ysgol Glantaf<br>Watching Ysgol Glantaf's Show |
| **18.11.24** | **Bl6:** Dyddiad Cau ceisiadau ysgol uwchradd<br>Deadline for Secondary School Applications |
| **22.11.24** | SORI - dyddiad anghywir wythnos ddiwethaf! Sorry, I shared the wrong dte last week!<br>**CRHA / PTA: Stondin Gwisgoedd Nadoligaidd Ail Law (iard)**<br>**Pre-loved Christmas Clothes Stall (yard)** |
| **26.11.24** | **Bl6: Trip Crucial Crew**<br>**Crucial Crew Trip** |
| **3.12.24**<br>**5.12.24** | **Sori wedi gorfod newid dyddiad / Sorry, we've had to change one date**<br>**Derbyn, Blwyddyn 1 a 2:** Sioe Nadolig yr adran Dysgu Sylfaen<br>**Reception, year 1 and 2:** Foundation Learning Christmas Show |
| **5.12.24** | **Stondin Gacennau Bl6 ar yr iard -** dewch â phres gyda chi os am gacen. Bydd yr elw yn mynd at barti diwedd cyfnod blwyddyn 6.<br>**YR6 Cake stall on the yard** - bring money if you want a cake. The profit will go towards year 6' end of an era party. |
| **6.12.24** | **Dros 7:** ymarfer Gwasanaeth Nadolig yn y Gadeirlan<br>**Over 7's**: Christmas Service Practice at the Cathedral |
| **10.12.24** | **Bl1 a 2:** Mynd i'r Sherman: Yr Hugain Fach Goch |

| | |
|---|---|
| | Going to the theatre: Little Red Riding Hood |
| **13.12.24** | **Ffair Nadolig / Christmas Fair**<br>Ar dir yr ysgol yn syth ar ôl ysgol / *On School grounds straight after school* |
| **18.12.24** | **Bl3-6:** Gwasanaeth Nadolig yn y Gadeirlan 9.30yb<br>Cathedral Christmas Service - 9.30am |
| **20.12.24** | Diwrnod Olaf tymor yr Hydref / Last Day of Autumn Term<br>**23.12.24 - 6.1.25:** Gwyliau Nadolig / Christmas Holiday |
| **6.1.25** | Diwrnod HMS / Inset Day |
| **7.1.25** | Disgyblion nôl yn yr ysgol<br>Pupils back in school |
| **3.2.25** | Diwrnod HMS / Inset Day |
| **24.2.25 - 28.2.25** | Hanner Tymor / Half Term |
| **17.3.25 - 21.3.24** | **Bl5:** Gwersi Seiclo<br>Cycling Lessons |
| **9.4.25 - 11.4.25** | **Bl4:** Maes y Fron<br>Call of the Wild |
| **11.4.24** | Diwrnod olaf Tymor y Gwanwyn / Last Day of Spring Term<br>**14.4.25 - 25.4.25:** Gwyliau Pasg / Easter Holiday |
| **26.5.25 - 30.5.25** | Hanner Tymor / Half Term |
| **2.6.24 - 3.6.24** | **Bl3:** Pentre Ifan a Chastell Henllys<br>Pentre Ifan and Castell Henllys |
| **9.6.25 - 20.6.25** | **Bl3:** Gwersi Nofio<br>*Swimming Lessons* |
| **18.7.25** | Diwrnod ola'r tymor / Last Day of term<br>**2.30pm:** Gwasanaeth Gadael Blwyddyn 6 Leavers Assembly |
| **21.7.25** | Diwrnod HMS / Inset Day |